**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**17 MAWRTH 2023**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Gwener, 17 Mawrth 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Mared Eastwood (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Glyn Banks, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins Cogan, Bill Crease, Rob Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, David Evans, Gladys Healey, Andy Hughes, Dave Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Dave Mackie, Allan Marshall, Ryan McKeown, Billy Mullin, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thomas, Arnold Woolley ac Antony Wren.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Uwch Reolwr (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Pam Banks, Steve Copple, Paul Cunningham, Adele Davies-Cooke, Jean Davies, Ron Davies, Chrissy Gee, David Healey, Roz Mansell, Linda Thew a Roy Wakelam.

## 95. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 96. RHYDDFRAINT Y SIR – YR ARGLWYDD BARRY JONES

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ac egluro y byddai'r Arglwydd Barry Jones wedi dathlu 50 mlynedd o gynrychioli pobl Sir y Fflint fel seneddwr yn 2020. Yr oedd y Cyngor wedi gwneud trefniadau o'r blaen i ailenwi Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir i 'Siambr Cyngor yr Arglwydd Barry Jones' er mwyn cydnabod ei gamp. Yn anffodus, oherwydd COVID a'r cyfyngiadau a oedd mewn grym ar y pryd, ni chynhaliwyd y digwyddiad.

Awgrymwyd ers hynny y dylid cyflwyno Rhyddfraint Sir y Fflint i'r Arglwydd Barry Jones, yn ogystal ag ailenwi Siambr y Cyngor ar ei ôl – byddai hynny'n deyrnged addas iddo am ei wasanaeth a'i ymroddiad i gymunedau lleol Sir y Fflint.

Yr enwebiad oedd cyflwyno Rhyddfraint Sir y Fflint i'r Arglwydd Barry Jones i gydnabod ei yrfa wleidyddol hir a disglair, a chytunodd holl Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol y Cyngor ar yr enwebiad. Bu'r Arglwydd Jones yn eiriolwr

dros Sir y Fflint drwy gydol ei yrfa, a pharhaodd i weithio'n ddiflino dros bobl, busnesau a grwpiau cymunedol ledled y sir. Dyma'r anrhydedd mwyaf y gallai Cyngor Sir ei roi.

Rhoddwyd Rhyddfraint y Sir dan Adran 249 (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Nododd y ddeddfwriaeth y gallai Cyngor Sir roi Rhyddfraint y Sir i "bobl o fri" ac "unigolion sydd, ym marn yr Awdurdod, wedi gwneud cymwynasau amlwg â'r lle hwnnw neu'r ardal honno".

Mae'n rhaid i benderfyniad i dderbyn Rhyddfreinwyr Anrhydeddus gael ei basio yng nghyfarfod y Cyngor a alwyd yn arbennig, lle rhoddwyd hysbysiad ynglŷn ag amcan y cyfarfod a'i basio gan ddim llai na dau draean o Aelodau'r Cyngor sy'n pleidleisio arno.

Yr oedd teitl Rhyddfreinwyr Anrhydeddus yn Sir y Fflint yn anrhydedd yn unig, ac nid oedd yn rhoi unrhyw hawliau na breiniau arbennig.

Croesawyd yr Arglwydd a'r Fonesig Jones a'u gwesteion arbennig i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Arweiniodd y teyrngedau i'r Arglwydd Barry Jones, ac fe'i dilynwyd gan y Prif Weithredwr, a chyfeiriwyd at ei bresenoldeb mewn digwyddiadau dinesig lle bu'n cefnogi Cadeirydd y Cyngor. Yr oedd yn ŵr lleol a gâi ei adnabod am ei frwdfrydedd dros yr ardal a'r bobl a oedd yn byw a gweithio yn yr ardal lle bu'n chwarae rhan allweddol wrth ddiogelu a hybu busnesau.

Canmolwyd y gefnogaeth a gafodd yr Arglwydd Barry drwy gydol ei yrfa gan y Fonesig Janet, tra'r oedd hi ei hun hefyd yn dal swyddi pwysig yn y gymuned. Yr oedd buddsoddiad yn yr ardal a thwf busnes yn brawf o'r gwaith cynnar a wnaeth yr Arglwydd Barry Jones wrth gefnogi datblygiad Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Airbus, y Diwydiannau Awyrofod cysylltiedig, Gwibffordd yr A55 a Phont Sir y Fflint.

Arweiniodd y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor, deyrngedau o'r Siambr, ac fe'i dilynwyd gan nifer o Aelodau. Dywedwyd bod yr Arglwydd Barry Jones yn enghraifft ragorol o wasanaeth cyhoeddus ac ymroddiad, ac yn unigolyn a oedd wedi gweithio'n ddiflino. Brwydrodd yn erbyn cau Courtaulds a Gwaith Dur Shotton, ac ers hynny bu'n gweithio'n ddiflino i gefnogi datblygiad diwydiannol yn Sir y Fflint. Cafwyd teyrngedau wedyn gan westeion arbennig.

Cynigiodd y Cynghorydd Roberts yr argymhellion yn yr adroddiad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Attridge.

Rhannwyd atgofion personol, a diolchodd pawb i'r Arglwydd Barry am ei gymorth a chefnogaeth dros y blynyddoedd, gan gynnwys ei gefnogaeth i'r sir.

Anerchodd yr Arglwydd Barry Jones y Siambr, ac ymatebodd i'r holl sylwadau ac atgofion a rannwyd. Diolchodd i'r Cyngor am yr anrhydedd o gael Rhyddfraint Sir y Fflint ac am ailenwi'r Siambr i fod yn "Siambr Cyngor yr Arglwydd Barry Jones".

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cyngor yn rhoi Rhyddfraint Sir y Fflint i'r Arglwydd Barry Jones dan Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gydnabod 52 o flynyddoedd o wasanaeth cyhoeddus fel seneddwr a'i wasanaeth ac ymroddiad parhaus i gymunedau lleol Sir y Fflint; a

(b) Bod Siambr y Cyngor yn cael ei ailenwi yn "Siambr Cyngor yr Arglwydd Barry Jones".

## 97. <u>AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD HEFYD YN BRESENNOL</u>

Yr oedd 30 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.55pm.)

..................................................

**Y Cadeirydd**